# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# CYNGOR CYMUNED BUAN 2023 / 2024

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Buan sy'n cofnodi'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2023 / 2024. Bwriad yr adroddiad yw rhoi crynodeb o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal.

Rhai o gyfrifodebau'r Cyngor yw:-

- Gosod y praesept a ddosberthir i'r Cyngor bob blwyddyn.
- Trafod ceisiadau cynllunio o fewn y gymuned a chyflwyno'r penderfyniadau i Adran Gynllunio – Cyngor Gwynedd.
- Hysbysu Adran Briffyrdd - Cyngor Gwynedd am gyflwr ffyrdd a.y.y.b.
- Cynnal a Chadw - Mynwent Llanfihangel, Cae pentref Rhydyclafdy a Mynwent Boduan, - gwahoddir prisiau / tendr gan gontractwyr.
- Cyfrannu at geisiadau am arian oddi wrth fudiadau / elusennau a.y.y.b.

**Gwybodaeth am y Cyngor**

Cymuned fechan ar Benrhyn Llŷn yw Buan yn cynnwys pentref Rhydyclafdy ac ardaloedd Boduan a Cheidio.

Mae 3 ward yn y gymuned a 10 cynghorydd wedi eu hethol fel a ganlyn:-

- **Ward Bachellaeth**

Cynghorwyr Hughie Williams, Rhys Jones, Catherine Hughes, Einir Lewis a Tesni Wyn Jones.

- **Ward Boduan**

Cynghorwyr Gareth Roberts, Philip Roberts a Dafydd Ll. Williams.

- **Ward Ceidio**

Cynghorwyr Wynne Davies a Nia Jones.

**Cynghorydd Sirol** – Mrs. Anwen Davies

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai gyda'r Cynhorydd Hughie Williams wedi ei ail ethol yn Gadeirydd am y flwyddyn 2023 / 2024 a'r Cynghorydd Rhys Jones eto wedi ei ail ethol yn Is-gadeirydd.

**Staff**

Un aelod o staff sydd gan y Cyngor, sef Nia Jane Owen-Midwood, sy'n Glerc a Swyddog Ariannol. Mae'n gweithio'n rhan amser. Gellir cysylltu â hi drwy e-bost clercbuan@outlook.com neu drwy lythyr i Mayfield, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6BW, neu ffôn ar 01758 720621.

Yn ystod 2023/2024 roedd Nerys Williams yn Glerc i'r Cyngor rhwng Ebrill 2023-Awst 2023, a Nia Jane Owen-Midwood rhwng Medi 2023-Ebrill 2024.

**Cyfarfodydd**

Cynhelir y cyfarfodydd ar yr ail nos Iau o bob mis yn nhafarn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 y.h. Y Gymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor.

Cafwyd 11 cyfarfod yn ystod y flwyddyn 2023/2024, - 9 ohonynt wedi eu cynnal yn Tu Hwnt i'r Afon a 2 yn Talybont, Rhydyclafdy - trwy garedigrwydd y Cynghorydd Catherine Hughes. Nid oedd digon o aelodau yn bresennol ar gyfer cyfarfod Hydref 2023, felly ni thrafodwyd unrhyw fater.

Diolch i bawb a fynychodd y cyfarfodydd ac am wneud eu gorau glas dros y gymuned. Mae pob un o'r cynghorwyr yn gwneud eu gwaith yn ddi-dâl ac yn ffyddlon iawn i'r Cyngor Cymuned. Ni chynhelir cyfarfod ym mis Awst.

**Gwefan**

Mae gwybodaeth am y Cyngor Cymuned gan gynnwys Rhaglenni Cyfarfodydd, Cofnodion a.y.y.b. i'w gweld ar y safle wê sef www.buan.org

**Aelodaeth Allanol**

Mae'r Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff ar gyfer Cynghorau Cymuned.

**Cyllid a Gwariant**

Penderfynwyd gadael y praesept yn union yr un fath â'r llynedd sef £3,750.00.

Bydd y Clerc yn anfon copi o gyfrifon y banc yn fisol i'r Cynghorwyr, ac fe fydd dau gynghorydd yn arwyddo'r sieciau ar ddiwedd pob cyfarfod.

Prif ffynhonell incwm y Cyngor yw'r praesept, ynghyd â chyfraniad gwerthfawr gan Lightsource (Fferm Solar)  a Lord Newborough.

**Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd Awst 2023**

Yn ystod Mis Awst 2023 cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023 ym Moduan.  Bu i Gyngor Cymuned Buan gefnogi'r Eisteddfod gan gyfrannu £500 at yr Eisteddfod a £900 i'r Pwyllgor Harddu Pentrefi.

Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y Cyngor 13 Mehefin, 2024.